
Adolygiad o reoleiddio'r post

Ymgynghoriad

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 9 Rhagfyr 2021

1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn nodi cynigion Ofcom ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau post rhwng 2022 a 2027. Nod ein cynigion yw cefnogi cynladwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth post cyffredinol, hyrwyddo cystadleuaeth a gwella diogelwch i ddefnyddwyr.

Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Cynnal y fframwaith cyffredinol presennol ar gyfer rheoleiddio'r Post Brenhinol mewn perthynas â'r gwasanaeth cyffredinol. Bydd hyn yn parhau i roi hyblygrwydd masnachol i'r Post Brenhinol ymaddasu i amgylchiadau newidiol ac ansicrwydd yn y farchnad, a bydd ganddo amgylchedd rheoleiddio sefydlog. Bydd y sefydlogrwydd a'r hyblygrwydd hwn yn cefnogi buddsoddiad ac arloesedd, ac yn creu'r amodau i alluogi'r Post Brenhinol i barhau i drawsnewid yn fusnes modern ac effeithlon ar gyfer yr oes ddigidol, gan sicrhau cynladwyedd ariannol hirdymor y gwasanaeth cyffredinol.

Cadw'r holl fesurau diogelu presennol i ddiogelu defnyddwyr, gan gynnwys ein safonau gwasanaeth o ansawdd uchel. Byddwn yn sicrhau mynediad i wasanaethau post sylfaenol fforddiadwy drwy gadw'r cap diogelu presennol ar lythyrau ail ddsbarth, llythyrau mawr a pharseli bach.

Cynyddu ein dealltwriaeth o ragfynegiad cynladwyedd tymor hwy y Post Brenhinol ar gyfer y gwasanaeth cyffredinol a'i gwneud yn ofynnol iddo adrodd yn gyhoeddus ar ei gynlluniau effeithlonrwydd tymor hwy.

Parhau i hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol yn y marchnadoedd post ehangach, drwy barhau i osod rheoleiddio cyfyngedig dim ond pan fydd ei angen er mwyn diogelu defnyddwyr neu gystadleuaeth. Rydym yn bwriadu cynnal y cwmpas presennol o ran rheoleiddio mynediad ond peidio â'i ymestyn i barseli bach. Nid ydym ychwaith yn bwriadu dod â chynhyrchion wedi'u tracio (Dosbarth Cyntaf neu Ail Ddsbarth) o dan gwmpas y gwasanaeth cyffredinol. Mae hyn yn cydnabod yr effeithiau andwyol y gallai'r newidiadau rheoleiddio hyn eu cael ar gystadleuaeth parseli o'r anfonwr i'r derbynnydd.

Cyflwyno mesurau diogelu defnyddwyr newydd wedi'u targedu ar gyfer gwasanaethau parseli, o ystyried rhai problemau a ganfuwyd gennym o ran profiad cwsmeriaid. Mae angen i weithredwyr parseli wneud gwelliannau sylweddol o ran ymdrin â gwasanaeth i gwsmeriaid a chwynion, felly rydym yn cynnig arweiniad newydd ar sut y dylid ymdrin â chwynion. Rydym hefyd yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i weithredwyr parseli roi polisiâu ar waith i ddiwallu anghenion defnyddwyr anabl yn well, gan i'n hymchwil nodi bod defnyddwyr anabl yn fwy tebygol o brofi problemau danfon ac yn fwy tebygol o ddiodef niwed o ganlyniad, o'i gymharu â defnyddwyr heb anabledau.

- 1.1 Mae gan wasanaethau post rôl allweddol yn ein cymdeithas. Fe'u defnyddir gan bron bawb yn y DU yn rheolaidd, o ddsbarthu siopa ar-lein, i dderbyn gohebiaeth feddygol bwysig, i anfon cardiau at ffrindiau a pherthnasau.
- 1.2 Mae anghenion defnyddwyr post a'r marchnadoedd post sy'n eu gwasanaethu yn newid. Mae nifer y llythyrau a anfonir gan ddefnyddwyr a busnesau yn parhau i ostwng, ond mae nifer y parseli'n tyfu'n gyflym wrth i ni barhau i gyfathrebu, siopa a byw'n wahanol.

Cyflymmodd y pandemig Covid-19 y tueddiadau hyn, gan dynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau post i gwsmeriaid preswyl a busnes ledled y DU. Dros y blynyddoedd i ddod, mae symud tuag at economi sero net ac addasiadau yn y farchnad lafur yn debygol o greu heriau pellach.

- 1.3 Mae gweithredwyr post yn parhau i addasu i'r newidiadau hyn. Ar gyfer gwasanaethau parseli, mae cystadleuaeth wedi cynyddu, yn enwedig ar gyfer siopa ar-lein. Mae hyn yn sbarduno arloesedd mewn ymateb i anghenion newidiol defnyddwyr. Mae'r Post Brenhinol, fel gweithredwyr eraill, yn esblygu ei fusnes ar yr un pryd â chynnal y ddarpariaeth gwasanaeth post cyffredinol.
- 1.4 Y sylfaen i reoleiddio'r post yw'r 'gwasanaeth post cyffredinol', sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddsbarthu llythyrau chwe diwrnod yr wythnos a pharseli bum niwrnod yr wythnos i bob cyfeiriad yn y DU am brisiau unffurf a fforddiadwy. Y tu hwnt i hyn, gosodwyd y fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer y post yn 2012 ac fe'i hadolygwyd ddiwethaf yn 2017. Mae'n adlewyrchu dyletswyddau cyfreithiol Ofcom, ac yn rhoi rhyddid masnachol sylweddol i'r Post Brenhinol ddarparu'r gwasanaeth post cyffredinol a gwasanaethau post eraill er mwyn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr ac addasu i'r heriau sy'n wynebu'r farchnad. Mae hefyd yn ceisio hyrwyddo cystadleuaeth yn y farchnad bost ehangach a diogelu defnyddwyr rhag niwed. Rydym yn adolygu a yw'r fframwaith hwn yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn effeithiol ar gyfer y pum mlynedd nesaf (o 2022 i 2027).
- 1.5 Wrth wneud hynny, rydym wedi gosod yr amcanion canlynol i ni'n hunain:
- Sicrhau bod gan bob defnyddiwr post fynediad at wasanaethau post syml, fforddiadwy a dibynadwy sy'n diwallu eu hanghenion. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i ddefnyddwyr gwasanaethau cyffredinol ond hefyd i ddefnyddwyr post ehangach, gan gynnwys yr holl ddefnyddwyr gwasanaethau parseli a llythyrau, ac anfonwyr a derbynwyr.
 - Sicrhau gwasanaeth post cyffredinol sy'n gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithlon.
 - Cefnogi cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad bost ehangach er budd defnyddwyr, ond gydag ymyriadau wedi'u targedu i ddiogelu defnyddwyr lle bo angen.
- 1.6 Rydym yn cydnabod bod ansicrwydd sylweddol o'n blaenau yn y farchnad ac mae sawl risg o hyd i gynladwyedd ariannol hirdymor y gwasanaeth post cyffredinol. Mae'n arbennig o bwysig, yn y cyd-destun hwn, fod y Post Brenhinol yn cyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ac yn moderneiddio ei weithrediadau er mwyn ymateb i'r galw cynyddol am ddsbarthu parseli. Mae prif sbardunau gwasanaeth post cyffredinol sy'n gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithlon o fewn rheolaeth y Post Brenhinol, ac rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod gan y Post Brenhinol hyblygrwydd masnachol o hyd fel ei fod mewn sefyllfa i ymateb i'r heriau y bydd yn parhau i'w hwynebu.

Camau nesaf

- 1.7 Rydym yn gwahodd ymatebion i'r cwestiynau a godir yn yr ymgynghoriad hwn, a grynhoir yn Atodiad 4, erbyn 5pm ar 3 Mawrth 2022. Ceir manylion sut i ymateb i'r ymgynghoriad

hwn yn Atodiad 1. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein datganiad ar reoleiddio gwasanaethau post yn y dyfodol yn Haf 2022.